

# Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Ile rhoddwyd rhybudd)

## Dermaskin

Dyddiad arolygu: 24 Awst 2016

Dyddiad cyhoeddi: 25 Tachwedd 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163

**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)

**Ffacs:** 0300 062 8387

**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1.	Introduction .....	2
2.	Methodology.....	4
3.	Context.....	5
4.	Summary.....	6
5.	Findings .....	7
	Quality of patient experience .....	7
	Delivery of safe and effective care .....	9
	Quality of management and leadership .....	12
6.	Next Steps .....	14
	Appendix A .....	15

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Prif ddiben AGIC yw:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, a sefydlu sut mae gwasanaethau'n bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.<sup>1</sup>

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau yn dilyn arolygiad o wasanaeth gofal iechyd annibynnol. Mae AGIC yn gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ysbytai annibynnol, clinigau annibynnol, ac asiantaethau meddygol annibynnol.

Rydym yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn ein hadroddiadau arolygu o dan dair thema:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
- Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.

---

<sup>1</sup> Cafodd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2011. Diben y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw sicrhau bod cleifion a phobl sy'n dewis gofal iechyd preifat yn cael sicrwydd bod y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn ddiogel ac o ansawdd da. <http://www.hiw.org.uk/rheoleiddio-gofal-iechyd>



## 2. Methodoleg

Yn ystod yr arolygiad, rydym yn casglu gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau â staff (lle bo hyn yn briodol) a rheolwr cofrestredig y gwasanaeth
- Sgyrsiau â chleifion a pherthnasau (lle y bo'n briodol)
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau
- Archwilio offer a'r amgylchedd
- Gwybodaeth yn natganiad o ddiben y gwasanaeth, ei ganllaw i gleifion, a'i wefan (lle bo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd cyn yr arolygiad.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiad drwy gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.<sup>2</sup> Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw welliannau eraill sydd eu hangen, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau'n cynnig cipolwg o ba mor dda mae gwasanaethau yn bodloni safonau a rheoliadau hanfodol o ran diogelwch ac ansawdd ar ddiwrnod yr arolygiad.

---

<sup>2</sup> Fel rhan o broses diffyg cydymffurfio a gorfodi AGIC ar gyfer gofal iechyd annibynnol, bydd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio'n cael ei gyflwyno mewn achos lle mae diffyg cydymffurfio rheoleiddiol yn fwy difrifol ac yn perthyn i ganlyniadau gwael a methiannau systemig. Achosion o'r fath fydd rhai lle mae canlyniadau gwael i bobl (oedolion neu blant) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a lle mae methiannau'n arwain at danseilio hawliau pobl. Mae copi o broses cydymffurfiaeth AGIC ar gael ar gais.

### 3. Cyd-destun

Mae Dermaskin wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol am ei fod yn darparu triniaethau laser Dosbarth 3B/4 yn LGF York Court, Ffordd Schooner, Caerdydd, CF10 4DY. Cofrestrwyd y gwasanaeth yn gyntaf yn 2014.

Ar adeg yr arolygiad, roedd y tîm staff yn cynnwys y rheolwr cofrestredig a thri gweithredwr laser. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu'r triniaethau canlynol i gleifion dros 18 mlwydd oed:

System Laser Ffracsiynol CO2 Monaliza-2 ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Ail-wynebu croen
- Gwaredu Caledennau Haul.

Laser Monaliza-3 Q-Switched Nd:YAG ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Gwaredu tatŵ.

## 4. Crynodeb

Gwnaethom edrych ar sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddwyd digon o wybodaeth i gleifion wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth
- Mae'r gwasanaeth yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion
- Gwelsom fod y cleifion yn cael eu hannog i roi adborth ar driniaethau a dderbyniwyd drwy amrywiaeth o ddulliau
- Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol o ran y gwasanaeth a ddarperir.

Gwelsom fod angen i'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Diweddariadau i'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben

Nodir manylion pellach ynglŷn â'r gwelliannau hyn yn Atodiad A.



## 5. Canfyddiadau

### *Ansawdd profiad y claf*

#### **Gwybodaeth a chaniatâd cleifion (Safon 9)**

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod cleifion yn derbyn digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth. Mae hyn oherwydd bod cleifion yn cael ymgynghoriad llafar cyn triniaeth. Roedd y drafodaeth hon yn cynnwys y risgiau a'r buddion a chanlyniad tebygol y driniaeth a gynigir. Dywedwyd wrthym fod yr holl gleifion yn cael prawf sensitifrwydd cyn cael triniaeth, a rhoddwyd canllawiau ôl driniaeth iddynt yn dilyn eu triniaeth.

Gofynnwyd i gleifion roi caniatâd ysgrifenedig ar gyfer y driniaeth a gwelsom gofnodion a oedd yn dangos hyn. Gwelsom fod ffurflenni cydsyniad y claf yn gofyn am gydlofnod gan aelod o'r staff; fodd bynnag, nid oedd yr holl gofnodion a samplwyd gennym wedi cael eu cydlofnodi. Dywedodd AGIC pan fo angen llofnod, dylai'r gwasanaeth sicrhau bod hyn yn cael ei wneud. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i sicrhau bod ffurflenni cydsyniad cleifion yn cael eu cydlofnodi pan fo hynny'n berthnasol.

Gwelsom dystiolaeth yn dangos y gofynnwyd i gleifion gwblhau ffurflenni hanes meddygol. Gwiriwyd y diweddariadau neu newidiadau yn ystod unrhyw apwyntiad dilynol, a diweddarwyd y cofnodion.

Roedd gan Dermaskin gofrestr driniaeth i gofnodi a chynnal gwybodaeth am gleifion. Gwelsom enghreifftiau o rai o'r cofnodion, a nodi bod gwybodaeth briodol yn cael ei chofnodi. Gwnaethom drafod y gallai ansawdd y cofnodion gael ei wella i sicrhau bod dyddiad y driniaeth yn hawdd ei adnabod a bod enw'r gweithredwr yn cael ei gofnodi'n gyson. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i fynd i'r afael â'r mater hwn.

#### **Cyfathrebu'n effeithiol (Safon 18)**

Roedd dogfen canllawiau i gleifion ar gael, ond roedd angen gwneud diweddariadau yn unol â'r rheoliadau, gan gynnwys manylion ynghylch sut y gall cleifion gael gafael ar adroddiad arolygu diweddaraf AGIC (e.e. drwy nodi cyfeiriad gwefan AGIC).

#### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

#### ***Rhaid diweddarau'r canllaw i gleifion yn unol â'r rheoliadau.***

Gwelsom fod datganiad o ddiben ar gael ond roedd angen ei ddiweddarau i gydymffurfio â'r rheoliadau, gan gynnwys:

- Egluro mai'r darparwr gwasanaeth meddygol cofrestredig yw'r rheolwr cofrestredig hefyd
- Egluro na fydd unrhyw un o dan 18 oed yn derbyn unrhyw driniaeth gofrestrredig
- Diweddariadau i rif ffôn AGIC.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid diweddarau'r datganiad o ddiben yn unol â'r rheoliadau***

***Rhaid darparu copi o'r datganiad o ddiben wedi ei ddiweddarau i AGIC***

### **Ymgysylltu â dinasyddion a chael adborth (Safon 5)**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r gwasanaeth ddsbarthu holiaduron AGIC er mwyn cael barn cleifion am y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd 19 o holiaduron cleifion cyn dyddiad yr arolygiad.

Yn ddieithriad, roedd yr holl gleifion yn cytuno'n gryf â'r datganiadau bod y gwasanaeth yn lân ac yn daclus, a bod y staff yn gwrtais, yn ofalgar, yn gwranddo, ac yn darparu digon o wybodaeth am eu triniaeth. Dywedodd yr holl gleifion fod eu gofal a thriniaeth yn 'rhagorol'.

Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth yn cynnal arolwg blynyddol ffurfiol i gael adborth gan gleifion a'r canlyniadau gan gynnwys y camau a gymerwyd, a dangosir hyn yn y dderbynfa. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod cleifion yn gallu rhoi sylwadau, awgrymiadau ac adborth ar sail anffurfiol mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys llyfr awgrymiadau, drwy anfon e-bost, ar lafar ac ar wefannau graddio allanol.

## **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol**

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol (Safon 7) a dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol (Safon 16)**

Roedd yr holl weithredwyr laser wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriannau laser a gwelsom dystysgrifau i gadarnhau hyn. Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod yr holl weithredwyr laser wedi derbyn hyfforddiant Craidd Gwybodaeth o fewn y tair blynedd diwethaf.

Gwelsom fod gan Dermaskin contract gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau a gwelsom ddogfennau i ddangos ei fod wedi ymweld yn 2014 a 2016. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth bod y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi ymweld yn 2015 a gwnaethom atgoffa'r rheolwr cofrestredig i sicrhau eu bod yn trefnu a chofnodi ymweliadau blynyddol gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau. Gwelsom fod y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi adolygu'r rheolau lleol sy'n rhoi manylion ynglŷn â sut i ddefnyddio'r peiriannau laser yn ddiogel a chyflawni asesiad risg amgylcheddol. Gwnaethom drafod pwysigrwydd cael adolygiad blynyddol o'r rheolau lleol gyda'r rheolwr cofrestredig, gan fod hyn yn rhan o amodau cofrestru ag AGIC.

#### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y rheolau lleol yn cael eu hadolygu o leiaf bob blwyddyn gan yr arbenigwr perthnasol ym maes laser neu olau pwls dwys.***

Roedd arwydd y tu allan i'r ystafell driniaeth yn dangos pryd roedd y peiriannau laser yn cael eu defnyddio, er mwyn atal mynediad heb ganiatâd tra bo'r peiriannau yn cael eu defnyddio.

Dyweddodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y peiriannau laser yn cael eu diffodd pan nad ydynt yn cael eu defnyddio a bod yr allweddi yn cael eu tynnu a'u cadw yn ddiogel yn swyddfa'r rheolwr.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu llygaid ar gael i gleifion a'r gweithredwyr laser. Roedd y cyfarpar diogelu llygaid mewn cyflwr addas yn ôl pob golwg wrth i ni gynnal ein harolygiad.

Dyweddwyd wrthym fod y ddau beiriant wedi cael eu gwasanaethu a'u graddnodi o fewn y deuddeg mis diwethaf, i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom waith papur i gadarnhau hyn; fodd bynnag, nid oedd y dogfennau yn nodi'r peiriannau yn glir a gwnaethom argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig fynd i'r afael â hyn y tro nesaf y bydd y peiriannau yn cael eu gwasanaethu.

Roedd protocolau meddygol ar waith ar gyfer pob peiriant laser, a oedd wedi'u llofnodi gan y rheolwr cofrestredig, sy'n ymarferydd meddygol arbenigol. Roedd y protocolau meddygol yn cael eu hadolygu'n flynyddol, ac yn cael eu dyddio a'u gweld gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau.

### **Diogelu plant ac oedolion agored i niwed (Safon 11)**

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion dros 18 mlwydd oed yn unig.

Y rheolwr cofrestredig yw'r arweinydd diogelu ar gyfer y gwasanaeth. Gwelsom fod polisi diogelu ar waith sy'n nodi'r broses i'w dilyn gan y staff pe byddai pryder yn ymwneud â diogelu. Gwnaethom argymhell i'r rheolwr cofrestredig y gallai'r polisi gael ei ddiweddarau i roi rhagor o fanylion i'r staff ynglŷn â'r camau i'w dilyn pe byddai pryder yn ymwneud â diogelu. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i ddiweddarau'r polisi.

#### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r polisi diogelu gael ei ddiweddarau i gynnwys canllawiau clir i'w dilyn gan y staff pe byddai pryder yn ymwneud â diogelu.***

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig bod hyfforddiant mewn amddiffyn oedolion agored i niwed wedi cael ei gwblhau. Er nad oedd tystysgrifau ar gael i'w gweld ar ddiwrnod yr arolygiad, derbyniwyd y rhain yn ddiweddarach gan AGIC, ac roeddent yn dangos bod y pedwar gweithredwr laser wedi cwblhau'r hyfforddiant.

### **Atal a rheoli heintiau a dadheintio (Safon 13)**

Gwelsom fod y gwasanaeth yn lân ac yn daclus. Roedd polisi rheoli heintiau ar waith gan y gwasanaeth a oedd yn cynnwys manylion yr amserlenni glanhau rheolaidd ar gyfer y gwasanaeth, yr offer glanhau, a'r manau triniaeth rhwng cleifion.

Gwelsom fod contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff clinigol yn ddiogel.

### **Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch (Safon 22)**

Gwelsom dystiolaeth fod gwiriad diogelwch nwy wedi cael ei gwblhau o fewn y flwyddyn ddiwethaf, i helpu i sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel.

Er mwyn sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn ddiogel i'w defnyddio, gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal o fewn y 12 mis diwethaf. Gwelsom dystysgrif hefyd a oedd yn ardystio bod gwiriad o wifrau trydanol wedi'i gwblhau o fewn y pum mlynedd diwethaf.

Gwnaethom edrych ar rai o'r trefniadau ar gyfer diogelwch tân. Roedd labeli gwasanaethu ar y diffoddwyr tân yn dangos eu bod yn cael eu gwasanaethu bob blwyddyn ac roedd arwyddion wedi'u gosod ar yr allanfeydd tân. Dywedwyd wrthym

fod ymarferion tân yn cael eu cynnal ar gyfer hyfforddiant staff; fodd bynnag, nid oedd y wybodaeth hon yn cael ei chofnodi. Gwnaethom argymhell i'r rheolwr cofrestredig y byddai'n arfer gorau i gadw cofnod o'r holl ymarferion tân sy'n cael eu cwblhau.

Dywedwyd wrthym fod yr holl staff yn cwblhau hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol bob blwyddyn, a bod pecyn cymorth cyntaf gan y gwasanaeth pe byddai angen. Penodwyd y rheolwr cofrestredig fel arweinydd cymorth cyntaf y gwasanaeth.

## ***Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth***

### **Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd (Safon 1)**

Rheolir Dermaskin gan y rheolwr cofrestredig, sy'n gallu rhoi triniaethau laser. Mae tri aelod ychwanegol o staff sy'n weithredwyr laser.

Gwelsom dystiolaeth bod nifer o bolisiâu ar waith yn y gwasanaeth, ac fel y nodir yn yr adroddiad hwn, mae angen gweithredu a/neu ddiweddarau rhai ohonynt. Dywedwyd wrthym fod y canllawiau yn cael eu diweddarau bob blwyddyn, oni bai bod angen cynnal adolygiad yn gynharach. Cynghorwyd y rheolwr cofrestredig i gynnwys tudalen fynegai yn y ffeil polisi gyda llofnodion y staff i ddangos eu bod nhw wedi darllen a deall unrhyw newidiadau i'w polisiâu a'u gweithdrefnau.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y trefniadau ar gyfer asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Roedd y rhain yn cynnwys cynnal archwiliadau clinigol ac anghlinigol, asesu adborth gan gleifion, a chael barn y staff. Argymhellwyd y dylai archwiliadau a'u canlyniadau gael eu cofnodi'n ffurfiol. Atgoffwyd y rheolwr cofrestredig ynghylch pwysigrwydd adolygu'r holl reoliadau yn rheolaidd fel modd o sicrhau cydymffurfiaeth barhaus.

### **Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau (Safon 23)**

Roedd polisi cwyno ar gael, ac roedd yn cynnwys digon o wybodaeth ar gyfer y cleifion pe byddant yn dymuno sôn am bryder. Nid oedd copi caled o'r polisi ar gael yn rhwydd i'r cleifion gael gafael arno pe byddent am wneud hynny'n gyfrinachgar. Gwnaethom argymhell y dylai copi caled o'r polisi cwynion fod ar gael yn rhwydd yn y dderbynfa i'r cleifion gael gafael arno.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd wedi derbyn unrhyw gwynion ffurfiol hyd yma, ond disgrifiodd sut y byddai'n cofnodi'r wybodaeth yn ffurfiol pe byddai'n derbyn cwyn. Dywedwyd wrthym fod adborth ar lafar yn cael eu cofnodi mewn cofnodion unigol cleifion yn gyffredinol. Gwnaethom drafod y dylai cwynion ysgrifenedig a llafar, os derbynnir rhai, gael eu cofnodi'n ffurfiol er mwyn rhoi sylw i unrhyw themâu neu broblemau cyffredin.

### **Rheoli cofnodion (Safon 20)**

Gwelsom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel yn y gwasanaeth. Dywedwyd wrthym fod cyfrineiriau unigol gan y staff i gael mynediad at gofnodion y cleifion. Roedd cofnodion papur yn cael eu storio mewn cypyrddau ffeilio dan glo.

### **Recriwtio i'r gweithlu ac arferion cyflogaeth (Safon 24)**

Gwelsom fod gan y rheolwr cofrestredig ac un gweithredwr laser dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd y ddau weithredwyr laser arall wedi gwneud cais diweddar am wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwelsom dystiolaeth a oedd yn cadarnhau'r ceisiadau hyn. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym na fu arnynt angen recriwtio unrhyw aelodau newydd o staff yn ddiweddar, ond fe ddisgrifiodd proses recriwtio a oedd yn cynnwys gwiriadau cyn-cyflogi.

Gwnaeth y rheolwr gadarnhau bod yr holl aelodau staff yn derbyn arfarniad blynyddol a bod anghenion hyfforddi yn cael eu nodi o ganlyniad i hwn.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella o ran y gwelliannau a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Gellir gweld manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir sut y bydd y gwelliannau a nodwyd yn Dermaskin yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC ac yn cael ei werthuso yn rhan o'r broses arolygu barhaus.



## Atodiad A

### Cynllun Gwella

Gwasanaeth: Dermaskin

Dyddiad yr arolygiad: 24 Awst 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd Profiad y Claf</b>					
Tudalen 6	Rhaid diweddarau'r canllaw i gleifion yn unol â'r rheoliadau.	Rheoliad 7 Safon 18	Mae'r canllaw i gleifion wedi'i ddiweddarau gyda gwefan AGIC wedi'i chynnwys ar gyfer yr adroddiad arolygu. Cadarnhawyd hefyd mai Dr Gautam yw'r rheolwr cofrestredig.	SG	Cwblhawyd 10 Hydref 2016
Tudalen 7	Rhaid diweddarau'r datganiad o ddiben yn unol â'r rheoliadau.  Rhaid darparu copi o'r datganiad o ddiben wedi ei ddiweddarau i AGIC.	Rheoliad 6 Safon 18	Wedi'i ddiweddarau i nodi mai Dr Gautam yw'r rheolwr cofrestredig.  Wedi'i ddiweddarau i nodi nad oes neb o dan 18 mlwydd oed yn derbyn triniaeth gofrestrdig.  Mae rhif ffôn AGIC wedi'i ddiweddarau.	SG	Cwblhawyd 10 Hydref 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol</b>					
Tudalen 8	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y rheolau lleol yn cael eu hadolygu o leiaf bob blwyddyn gan yr arbenigwr perthnasol ym maes laser neu olau pwls dwys.	Amodau cofrestru AGIC Rheoliad 15 ac 19 Safon 16	Mae gennym gontract cynghorydd diogelu rhag laserau ar waith, gydag ymweliadau blynyddol, ers adeg cofrestru'r clinig gyntaf. Cafodd yr ymweliad ar ddiwedd 2015 ei ohirio nes dechrau 2016 yn sgil trafferthion amserlennu ar ran ein cynghorydd diogelu rhag laserau.  Mae ein hymweliad nesaf eisoes wedi'i drefnu ar gyfer Rhagfyr 2016. Bydd hyn yn dod â'r ymweliad blynyddol yn ôl o fewn y llinell amser ofynnol a byddwn yn sicrhau na fydd yr amllder yn hwy na 12 mis yn y dyfodol.  Rydym yn gweithio'n agos â'n cynghorydd diogelu rhag laserau er mwyn sicrhau ein bod yn dilyn canllawiau a phrotocolau yn ddiwyd ac yn darparu gwasanaeth priodol a diogel.	SG	Cwblhawyd  Ymweliad nesaf – Rhagfyr 2016
Tudalen 9	Dylai'r polisi diogelu gael ei ddiweddarau i gynnwys canllawiau	Rheoliad 16 Safon 11	Mae'r polisi diogelu wedi'i ddiweddarau. Mae staff wedi diweddarau eu hyfforddiant ac mae siart lif a	SG	Cwblhawyd 10 Hydref 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	clir i'w dilyn gan y staff pe byddai pryder yn ymwneud â diogelu.		chysylltiadau wedi'u darparu i'r holl staff.		
<b>Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b>					
	Nid oes angen unrhyw welliannau.				

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):** Mr Siddarth Gautam

**Teitl:** Y Rheolwr Cofrestredig

**Dyddiad:** 4 Tachwedd 2016